



Mr David Grover  
Site Director  
GE Healthcare  
The Grove Centre  
White Lion Road  
Amersham  
HP7 9LL

Paul Orders  
Prif Weithredwr Cyngor Dinas Caerdydd  
Cyngor Dinas Caerdydd  
Yst 501 – Llawr 5  
Neuadd y Ddinas  
Caerdydd  
CF10 4UW

[REDACTED]  
Emergency Preparedness and Response  
Office for Nuclear Regulation  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
L20 7HS

Ffôn: [REDACTED]

E-bost: [REDACTED]

Ein Cyfeirnod: 4.10.1.178 (2016/472074)  
Rhif Unigryw: ONR-COP-EPR-16-268

Dyddiad: 22<sup>ail</sup> Rhagfyr 2016

## **Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) 2001**

### **Adolygiad o'r Gofyniad am Gynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle ac Ardaloedd Gwybodaeth Ymlaen Llaw**

#### **Safle Drwyddedig Niwclear Caerdydd GE Healthcare**

Annwyl Mr Grover a Mr Orders,

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'n debyg, mae ONR wedi bod yn adolygu a oes gofyniad, dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) 2001 (REPPiR) am ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ac ardal sy'n galw am i GE Healthcare ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw i'r cyhoedd o gwmpas Safle Drwyddedig Niwclear Caerdydd (CNLS).

Man cychwyn y broses hon oedd yr Adroddiad Asesiad (RoA) a anfonwyd at ONR gan GE Healthcare, a oedd yn dangos nad oedd tebygrwydd potensial, y gellid ei ragweld yn rhesymol, o argyfwng ymbelydredd yn codi o ganlyniad i weithredu ar safle CNLS.

#### ***Cynllunio REPPiR ar gyfer argyfwng oddi ar y safle a darparu gwybodaeth ymlaen llaw i'r cyhoedd***

Yn unol â gofynion rheoliadau 5 a 6 REPPiR, roedd GE Healthcare wedi adolygu ei Dulliau Adnabod Peryglon a Gwerthusiad Risg (HIRE) ac wedi cyflwyno RoA perthnasol i CNLS i ONR ar 6<sup>ed</sup> Mehefin 2014. Mae ONR wedi cwblhau ei asesiad o'r RoA a pharatoi Adroddiad Asesiad Prosiect (ONR-COP-PAR-15-011 Adolygiad 1, ar gael ar wefan ONR).

Daeth ONR i'r casgliad bod yr RoA yn bodloni gofynion rheoliad 6(4) ac Atodlen 5 REPPiR, yn cytuno â chanfyddiadau GE Healthcare nad oedd tebygrwydd potensial, yn ôl diffiniad REPPiR, y gellid ei ragweld yn rhesymol, o argyfwng ymbelydredd yn CNLS ac yn dod i'r casgliad nad oes darpariaeth gyfreithiol o fewn REPPiR i ONR ddynodi ardal gynllunio oddi ar y safle ar gyfer argyfwng ar y CNLS.

O ganlyniad, nid oes gofyn dan Reoliadau 9(1) REPPiR i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi, profi ac adolygu cynllun argyfwng oddi ar y safle a dim gofyn dan Reoliadau 16(1) REPPiR i GE Healthcare ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw i'r cyhoedd mewn perthynas â CNLS.

#### ***Trefniadau Argyfwng***

Tra bod yr adolygiad hwn yn cadarnhau nad oes gofyn am ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle dan REPPiR mewn perthynas â CNLS, dylai trefniadau argyfwng cymesur er diogelwch y cyhoedd barhau i fodoli ar ffurf;



- mae gan weithredwyr ddyletswyddau cyffredinol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 i sicrhau, i'r graddau bod hynny yn rhesymol ymarferol, diogelwch a lles gweithwyr a phersonau eraill;
- rhaid i weithredwyr dan reoliadau 4(2) REPIR, lle bo risgiau ymbelydredd i weithwyr neu bersonau eraill wedi eu nodi yn ystod HIRE, gymryd pob cam rhesymol i atal damwain ymbelydredd o'r math hwn a chyfyngu ar ganlyniadau damwain ymbelydredd o'r math hwn sydd yn digwydd;
- mae gofyn i weithredwyr sydd yn dal trwydded safle niwclear wneud a gweithredu trefniadau digonol ar gyfer delio gydag unrhyw ddamwain neu argyfwng (dan amod trwydded safle 11 sydd ynghlwm â'r drwydded safle niwclear ); ac i baratoi cynlluniau hapddigwyddiad angenrheidiol yn unol â Rheoliadau Ymbelydriadau Ioneiddio 1999, ac
- mae gan gyrrff megis awdurdodau lleol ddyletswyddau i wneud trefniadau argyfwng digonol dan ddeddfwriaeth arall megis y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.


## **REPIR HIRE y Dyfodol ac RoA**

Dylid nodi, cyhyd â'ch bod yn gweithio gydag ymbelydred ìoneiddio y mae REPIR yn berthnasol iddo ar y CNLS, mae gan GE Healthcare ddyletswydd cyfreithiol i asesu newidiadau i'r gwaith hwnnw, i adolygu o bryd i bryd ac adrodd am asesiadau yn unol â rheoliadau 5(1), 5(2), 6(2), 6(3) a 6(4) REPIR.

Yn ddiffuant,

  
**Pennaeth EP&R ONR**

## **Dosbarthu**

Cyngor Dinas Caerdydd: 

GE Healthcare: 

ONR: 